618

# LLOFRUDDIAETH

## OFNADWY LLANELLY,

Tachwedd 12, 1887.

---

# Cyfaddefiad Llawn

GAN Y CARCHAROR,

## DAVID REES,

yr hyn a wnawd ganddo, Chwefror yr 28, 1888, yn mhresenoldeb Swyddogion Carchardy Caerfyrddin, enwau y rhai ydynt D. Thomas, Governor, a T. R. Walters, Chaplain. Cyfaddefodd mai efe ei hun, a laddodd Thomas Davies, gyda'r *hanger*, yr hwn a gymerodd o waith Dafen, ac hefyd a ddygwyd i'r llys i'w erbyn y prawf.

---

### Y CYFADDEFIAD

'Rwyf fi heddyw am ddywedyd,
Er fy ngofyd mai myfi—
Y ddeuddegfed ddydd o Dachwedd,
A gyflawnais weithred ddu;
Ie'n wir, myfi'n wirfoddol
Heb gynorthwy unrhyw ddyn,
Lleddais Thos. Davies wirion,
Yn fy nwyd a'm llaw fy hun.

Yr oedd Satan wedi'm twyllo,
  I gynllunio'r weithred hon,
Ac nis gallwn, heb lofruddio
  Am yr arian, foddio'm bron;
Er fod Davies, wr diniwed,
  I mi'n gyfaill anwyl iawn,
Penderfynais ddwyn ei fywyd
  Am hyn rhaid i mi roddi iawn.

Wedi cerdded i'w gyfarfod
  (O! mor chwerw 'nawr i mi,)
A chan ffugio cyfeillgarwch—
  Dyma 'n gywir fel y bu—
Ymosodais arno'n chwerw—
  Gyda'r *hanger* t'rewais ef,
Ac i'r llawr fe aeth y truan—
  Dan ei glwy' heb yngan llef.

Minau'n ebrwydd redais ymaith—
  Gyda'r arian, O! mor syn,
Ac fe'u cuddais hwy gan fe l l wl
  Eu cymeryd wedi hyn;
Ond "dialedd gwaed" am daliodd,
  Rwymwyd fi—mor chwerw'n awr,
Rhaid i'm farw ar y crog-bren,
  A myn'd i'r tragwyddolfyd mawr

'Rwy'n dymuno dweyd yn hyglyw,
  Mae'r diodydd meddwol wnaeth—
Fy nyrysu, nes llofruddio— [gaeth;
  Wnes, am hyn 'rwyf heddyw'n

X205231461

Bum yn yfed diod feddwol
  Drwy yr wythnos, nes i mi,
Gael fy hudo gyda Satan,
  I gyflawni'r weithred ddu .

O! mor flin y teimlaf bellach
  Am y cwmwl twrchus hwn,
Mae euogrwydd fel mynyddau
  Arnaf heddyw'n pwyso, gwn,
O! maddeued holl berth'nasau
  Davies druan, imi am
Eu harcholli mor fradwrus,
  A gwneyd iddynt y fath gam.

Mi fy hun a ddaeth a'r *hanger*,—
  Yn fy llawes cuddiais ef,
A'r modd hwnw mi a'i cariais
  Yn guddiedig drwy y dref,
Ac mewn dirgel fan ei rhoddais,
  Am y noson, dyma'r gwir,
Ond yn gynar boreu dranoeth
  Es o hyd i'r ellyn dur.

Dyna'r hanes i chwi bellach,—
  Dyna'n gywir fel y bu,
Ac yn nghylch yn aur a'r arian,
  Nis gwn ddim, O! coeliwch fi,
Ffarwel i chwi, rhaid yw marw,
  O! fy Nuw, fy meiau mawr,
Cuddia hwy yn mor dy gariad,
  Ffarwel mwy, ffarwel yn awr.

# THE TERRIBLE
# Tragedy at Llanelly.

# A FULL CONFESSION.
# EXECUTION OF THE CULPRIT.

At the Carmarthen Gaol on Tuesday, March 13, 1888, was executed David Rees of Lanelly, for the awful murder of Thomas Davies of the same place, on the 12th of November, 1887. Circumstances pointing very directly towards Rees as being the culprit, he was apprehended, and through the testimony of an eye-witness to the deed—a lad named Lewis, aged 11 years—was committed to the Assizes at Carmarthen, and at which, after three days trial, he was sentenced to death. The following is his confession :—"I, David Rees, confess, with much grief and sorrow, that on the 12th day of November, 1887, I, myself, single-handed and unaided by any other person, did wilfully kill Thomas Davies, of Felinfoel, Llanelly. The money which I took away from the possession of the said Thomas Davies, I afterwards hid somewhere in some hedge of the field next adjoining the Box Cemetery, but I cannot at present remember the exact spot. I wish to state that drink was the cause of all this. I was not drunk at the time I committed the crime, but I felt "muddled" and confused in consequence of my having been drinking heavily during the previous day and night. I am truly sorry for what I have done. and I humbly entreat the forgiveness of the deceased's relations, for the misery and grief I have caused them. What I have stated above is a true confession, and I have made this confession as being the only reparation and satisfaction I can offer to those I have so grievously wronged, and may the Lord have mercy on my soul."

(Signed) DAVID REES, Dafen.

Witnesses, { D. THOMAS, Governor.
T. R. WALTERS, Chaplain.